

1. Pryd mae Nant y Rhath wedi gorlifo?

Torrodd Nant y Rhath ei glannau yn fwyaf diweddar pan gafwyd llifoedd afon uchel yn 2007 a 2009 ac ar adegau pan oedd y llanw yn uchel yn 2010 ac yn 2012.

Bydd y tebygolrwydd o lifogydd ond yn cynyddu dros amser oherwydd rhagwelir y bydd cynnydd yn lefelau'r môr a mwy o law trwm a dwys a fydd yn disgyn yn amlach o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd.

2. Beth yw'r perygl llifogydd ar gyfer yr ardal?

Mae yna ardaloedd o risg uchel, canolig ac isel yn Y Rhath:

Risg	Diffiniad o'r risg	Nifer yr eiddo mewn perygl
Uchel	Mae perygl uchel yn golygu bod y posibilrwydd o lifogydd yn yr ardal yn fwy nag 1 mewn 30 (3.33%) bob blwyddyn.	Perygl uchel: hyd at 200 tŷ a 10 eiddo masnachol.
Canolig	Mae perygl canolig yn golygu bod y posibilrwydd o lifogydd yn yr ardal rhwng 1 mewn 100 (1%) ac 1 mewn 30 (3.33%) bob blwyddyn.	Perygl canolig: hyd at 380 tŷ a 50 eiddo masnachol.
Isel	Mae perygl isel yn golygu bod y posibilrwydd o lifogydd yn yr ardal rhwng 1 mewn 1000 (0.1%) ac 1 mewn 100 (1%) bob blwyddyn.	Perygl isel: hyd at 780 tŷ a 165 eiddo masnachol.

3. Pa amddiffyniad rhag llifogydd y mae'r cynllun yn ei ddarparu?

Bydd y cynllun yn cynyddu lefel yr amddiffyniad ar gyfer y gymuned d dros 400 eiddo hyd at un digwyddiad o lifogydd mewn 75 blwyddyn (tebygolrwydd o 1.3% o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol) ac un digwyddiad mewn 150 blwyddyn i ddigwyddiad llifogydd llanwol (tebygolrwydd o 0.67% mewn unrhyw flwyddyn benodol).

4. Beth yw'r ateb a ddewiswyd?

Nododd ein hymchwiliad mai'r dull mwyaf priodol o reoli'r perygl o lifogydd fyddai cadw llifddwr o fewn y coridor afon. Bydd gwaith dylunio sensitif fel rhan o'r cynllun hwn yn gweld addasiadau i'r sianel afon, gwaith ar y pontydd ffordd ac argloddiau ac argaeau uwch yn yr ardal.

5. Pam ddim treillio?

Pan fydd llifogydd, bydd y rhan fwyaf o'r dŵr yn llifo ar draws y gorlifdir sydd gyferbyn â'r gwely afon. Byddai treillio yn cynyddu capasiti'r afon ychydig ond ddim digon i leihau'r perygl o lifogydd yn y Rhath nac i atal llifogydd mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lanw uchel. Fodd bynnag, caiff y nant ei haddasu yn yr ardal o amgylch Gerddi Nant y Rhath; drwy ledaenu'r gwely yma, gellir lleihau uchder yr amddiffynfeydd rhag llifogydd.

6. Pam ddim gwrthsefyll y llanw uchel?

Byddai gosod falf glec llanwol yn gostwng uchder yr amddiffynfeydd llifogydd o Morrisons i Sainsbury's, fodd bynnag ni fyddai newid yn digwydd i'r amddiffynfeydd angenrheidiol i fyny'r afon o Erddi Waterloo. Byddai risg weithredol sylweddol oherwydd byddai angen pŷmpiau mawr er mwyn atal llifau afonydd rhag cronni.

7. A allwn storio llifau afon i fyny'r afon?

Gwnaethom ystyried storio dŵr mewn manau agored, gan gynnwys Clwb Rygbi St Peter's, Tir Hamdden y Rhath ac yn ardal Llanisien ond cafwyd nad oedd fawr ddim budd. Ymchwiliwyd i gadw dŵr yn Llyn y Rhath yn ystod llifau afon uchel. Byddai'r opsiwn hwn yn galw am wneud cryn dipyn o

waith i'r llyn, gan gynnwys cryfhau'r argae a chodi ei lefel fel bod y cyhoedd yn ddiogel o hyd. Hyd yn oed wedyn, byddai hyn ond yn gostwng lefel yr amddiffynfeydd rhag llifogydd sydd eu hangen yng Ngerddi Waterloo draean o fetr ac ni fyddai o unrhyw fudd i ardaloedd a oedd yn wynebu perygl o lanw uchel.

8. A ellir defnyddio dargyfeiriad neu sianel osgoi?

Nid oes digon o le i greu sianel na chwlfert artifisial digonol.

9. A ellir defnyddio amddiffynfeydd dros dro?

O ganlyniad i gyflymder, dyfnder a graddau llifogydd, ni fyddai digon o amser i godi amddiffynfeydd dros dro. Hefyd, byddai dyfnderoedd llifogydd mewn rhai lleoliadau hefyd yn fwy nag uchder amddiffynfeydd dros dro.

10. A fyddai clirio draeniau stryd yn datrys y broblem llifogydd?

Bydd clirio draeniau stryd yn lleihau perygl llifogydd dŵr wyneb lleol, yn arbennig mewn cyfnodau o lawiad llai dwys. Fodd bynnag mae rhai o'r llifogydd afonol yn digwydd oherwydd bod y nant yn cario dŵr i fyny'r afon, sydd ddim yn cael ei effeithio gan y draeniau yn Y Rhath. Bydd lefelau dŵr uwch yn y Nant yn atal dŵr wyneb rhag arllwys mewn llifogydd eithafol ac felly ni fydd yn datrys y broblem gorlifo yn ystod llifogydd eithafol. Ni fydd clirio draeniau stryd yn lleihau perygl llifogydd llanwol.

11. A ellir defnyddio deunydd gwarchod eiddo unigol?

Nid yw deunydd gwarchod eiddo unigol (fel rhwystrau llifogydd a gorchuddion awyrellau) yn addas ar gyfer nifer fawr o eiddo mewn perygl o lifogydd a dyfnder y llif. Mae dyfnderoedd a chyflymderau llifogydd yn peri risg i fywyd mewn rhai lleoliadau.

12. Beth yw uchder a lled y waliau llifogydd? Sut y penderfynwyd ar hyn?

Uchder mwyaf y waliau fydd 1.2m uwchben y lefel daear bresennol. Bydd lled y waliau rhwng 0.5m a 0.8m. Penderfynwyd ar uchder y waliau gan lefelau dŵr mewn un digwyddiad o lifogydd afonol mewn 75 blwyddyn ac un digwyddiad o lifogydd llanwol mewn 150 blwyddyn, yn ogystal â chaniatáu am ansicrwydd a elwir yn "freeboard", sy'n arferol. Gofynion adeileddol oedd yn pennu'r trwch.

13. O beth y gwneir y waliau llifogydd?

Bydd y waliau yn cael eu hadeiladu o un ai stanciau dur neu goncrit cyfnerth, gydag wyneb cerrig neu frics a cherrig copa cerrig, i adlewyrchu cymeriad yr ardal.

14. Allai'r waliau llifogydd ddilyn perimedr y gerddi yn hytrach nag ar hyd y Nant?

Byddai hyn yn rhwystro golygfeydd i mewn i'r parc ac yn cael effaith ddifrifol ar yr Ardal Gadwraeth. Byddai mwy o goed Categori A yn cael eu colli os byddai'r waliau'n mynd o amgylch y parc yn hytrach nag o fewn y gerddi.

15. Pam na ellir cynnal mynediad i'r Nant yng Ngerddi Waterloo?

Gosodwyd aliniad y waliau yn yr ardd oherwydd bod angen cadw coed allweddol. Os byddai mynediad dros y wal yn cael ei ddarparu yna byddai angen hyd arwyddocaol o rampiau. Byddai hyn yn gwneud i'r parc edrych yn flêr ac efallai'n annog ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd cudd yn y parc. Cynhelir mynediad i'r Nant yng Ngerddi'r Rheilffordd, ochr i fyny'r afon o Erddi Melin y Rhath ac yng Ngerddi Nant y Rhath.

16. Pa ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd?

Trwy ymgynghori'n barhaus gyda thrigolion yr ardal, busnesau a rhanddeiliaid, rydym wedi gwrandao ar y gymuned leol, sydd wedi ein helpu i lunio'r cynllun terfynol, gan gynnwys cael gwared â chyn lleied o goed ag y bo modd a defnyddio llai o furiau drwy gydol y cynllun.

- Cnocio ar ddrysau a chyfarfodydd i gynyddu ymwybyddiaeth o berygl llifogydd a chynhyrchu Cynllun Llifogydd Cymunedol: o 2012 hyd 2014
- Sesiynau galw heibio i'r cyhoedd: Mai 2014, Hydref 2014, Gorffennaf 2015, Ionawr 2017

- **Stondin yn Ffair Gerddi Waterloo:** Awst 2014, Gorffennaf 2015, Gorffennaf 2016
- **Cerdded y safle gyda phreswylwyr lleol:** Medi 2015
- **Hysbysebion yn y wasg, hysbysiadau safle a llythyrau ymgynghori i eiddo sy'n ffinio'r gerddi**
- **Diweddariadau rheolaidd drwy gylchlythyron, posteri, gwe-dudalen Cynllun Llifogydd y Rhath a'r cyfryngau cymdeithasol**

17. Pa gaefeydd allai effeithio arnaf i?

- Bydd ardaloedd o fewn Gerddi'r Rheilffordd (y Sandies), Gerddi Waterloo ac ochr lawr yr afon o Erddi Melin y Rhath ar gau am y rhan fwyaf o'r gwaith. Bydd Gerddi Nant y Rhath ac ochr i fyny'r afon o Erddi Melin y Rhath yn cau yn nes ymlaen, pan fydd y gerddi eraill yn ailagor.
- Mae'n debygol y bydd ardaloedd eraill o Erddi Waterloo yn cael eu cau am ychydig wythnosau tra ymgymerir â gwaith dargyfeirio cyfleustodau.
- Bydd pont Waterloo Road ar gau am tua 10 mis tra bydd y bont yn cael ei hamnewid. Bydd gwyriad mewn lle i gerbydau, ond bydd mynediad i gerddwyr dros y Nant yn cael ei gynnal.
- Yn anffodus byddwn yn cau'r bont droed o Newminster Road i Erddi Waterloo o ganol Mawrth am tua 5 mis i adeiladu pont newydd a'r waliau llifogydd cyfagos.

18. Pwy sy'n gwneud y gwaith a beth yw oriau gwaith y safle?

Mae'r gwaith adeiladu yn cael ei wneud gan Dawnus ar ein rhan ni. Mae Dawnus yn un o'n cyflenwyr fframwaith ac yn gontractwyr peirianeg sifil profiadol. Mae ein horiau safle o 8am i 6pm ddydd Llun i ddydd Gwener, ac 8am i 1pm ar ddydd Sadwrn.

19. Pam fod angen torri coed?

Yn anffodus bydd angen tynnu coed ar gyfer adeiladu'r cynllun llifogydd newydd. Nid oedd yn bosib achub pob coeden o fewn y gerddi, ond rydym wedi ceisio cael y cydbwysedd cywir o warchod yr ardal gadwraeth a nodweddion treftadaeth y parc, tra'n gallu adeiladu cynllun a chwrdd â'r gofyniad safonol i amddiffyn rhag llifogydd.

20. Pa goed newydd fydd yn cael eu plannu?

Byddwn yn ailblannu 105 o goed o fewn y gerddi (gyda'r mwyafrif rhwng 2.5m a 5m o daldra) a hyd at 200 o goed ifanc o fewn maes chwarae'r Rhath. Dewiswyd y mathau o goed yn arbennig i gefnogi cymeriad presennol y gerddi. Bydd nifer y coed i'w plannu yn dibynnu ar y gofod sydd ar gael, gan fod angen lle iddynt dyfu. Nodwyd Gerddi'r Rheilffordd fel ardal lle gellid plannu mwy, ond fe wrthwynebodd y gymuned leol y cynllun gan ei bod eisiau gofod agored ar gyfer hamdden.

21. Pa faterion amgylcheddol a ystyriwyd fel rhan o'r cynllun?

Mae arolygon ecolegol wedi cael eu cynnal a oedd yn dangos y potensial ar gyfer presenoldeb ystumod, adar sy'n nythu, pathewod, ymlusgiaid a dyfrgwn yn yr ardal. Bydd cyfres o fesurau'n cael ei chyflwyno i amddiffyn a gwella'r bywyd gwyllt hwn, a'r rhai sydd yn y nant, yn ystod ac ar ôl y gwaith. Rydym hefyd wedi penodi goruchwylwr amgylcheddol i fonitro ac amddiffyn bywyd gwyllt yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd parthau amddiffyn gwreiddiau'n cael eu gosod yn ystod y broses o dynnu'r coed er mwyn amddiffyn y coed sy'n weddill. Bydd archeolegydd yn bresennol i oruchwylio a chofnodi cloddiadau yn ardal hen Felin y Rhath.

22. Pam fod yna ardal balmant newydd yng Ngerddi Melin y Rhath?

Datblygwyd y cynllun yn yr ardal hon er mwyn creu darn o lwybr wedi'i godi, gerllaw'r amddiffyniad llifogydd, a fyddai'n rhoi golygfeydd dros y Nant. Mae'r gofod yn rhoi cyfle i ymgorffori ardal eistedd a nodwedd gwaith celf.

23. Pam gosod gwaith celf newydd yng Ngerddi Melin y Rhath?

Yn ystod digwyddiad ymgynghori cynnar gofynnodd grŵp celfyddyd a fyddai'n bosibl ymgorffori eitem o gelfyddyd gyhoeddus yn y cynllun. Yn yr un modd holodd grŵp archeolegol lleol a allai'r cynllun hyrwyddo hanes Gerddi Melin y Rhath. O ganlyniad datblygwyd cynnig i gomisiynu artist i greu eitem o gelfwaith a fyddai'n hyrwyddo hanes Gerddi Melin y Rhath, a chafodd hyn gefnogaeth bositif gan y gymuned.

24. Sut datblygwyd y gwaith celf hwn?

Comisiynwyd Rubin Eynon, yr artist o Gymru, i ddarparu'r eitem o gelfyddyd. Mae Rubin wedi ymgymryd â nifer o brosiectau celfyddyd gyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys model efydd o Frodordy'r Brodyr Duon ym Mharc Bute. Daeth Rubin draw i'n sesiwn galw heibio ar 11 Ionawr 2017 pan drafodwyd amryw o opsiynau gydag aelodau'r cyhoedd (gweler lluniau Opsiynau 1 a 2). Yn dilyn hyn cafwyd ymgyrch ddsbarthu taflenni yn y gymuned a diweddariadau rheolaidd ar dudalen Facebook arbennig Rubin (www.facebook.com/Millgardensculpture) ac ar we-dudalen a chylchlythyr Cynllun Llifogydd y Rhath.

25. Pam gosod ardal esgynlawr a phergola yng Ngerddi Waterloo?

Yn yr ardal hon o Erddi Waterloo mae angen uno'r wal lifogydd newydd o'r naill ochr i'r bont uchel. Ychwanegwyd ardal pergola o ganlyniad i gynnal adolygiad gyda Chyngor Caerdydd, y cyhoedd a Chomisiwn Cynllunio Cymru yn ystod haf 2016, a ddeilliodd o'r syniad i gynnwys hen safle seindorf y parc. Deilliodd y syniad o ardd Edwardaidd (Hestercombe House yng Ngwlad yr Haf), a gynlluniwyd gan Gertrude Jekyll a Syr Edwin Lutyens, a gafodd ddylanwad mawr ar gynllunio tirweddau yn ystod y cyfnod.

Rydym wedi derbyn adborth gan y gymuned ynglŷn â'r strwythur pergola sydd wedi'i leoli ar yr ardal esgynlawr yng Ngerddi Waterloo ac ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r opsiynau dylunio ar gyfer yr ardal hon. Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau pellach gan y cyhoedd ynglŷn â'r pedwar opsiwn a ddangosir.

26. Beth am yswiriant cartref?

Gellir cael gwybodaeth ynglŷn ag yswiriant tai o'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol a gwefan Flood Re (www.nationalfloodforum.org.uk & www.floodre.co.uk). Gall CNC ddarparu gwybodaeth drwy Ymholiad yn Ymwneud ag Yswiriant ar gyfer unrhyw eiddo a warchodir gan y cynllun i gefnogi cais am yswiriant tai. Fodd bynnag, rhaid i bob cwmni yswiriant unigol benderfynu a ydynt yn derbyn bod y cynllun yn lleihau'r perygl o lifogydd yn ddigonol iddyn nhw roi yswiriant.

27. A fydd map llifogydd CNC yn cael ei ddiweddarau?

Mae'n debyg y bydd Map Llifogydd CNC yn cael ei newid i ddangos y bydd Y Rhath yn cael ei newid i fod yn *Ardal a fyddai'n Elwa o Amddiffynfeydd*, ond bydd y rhain o dan y safon ddangosol o amddiffyn rydym fel arfer yn eu nodi ar gyfer amddiffynfeydd afonol a llanwol, h.y. dan 1% a 0.5% yn ôl eu trefn.

28. Gyda phwy rwy'n cysylltu os bydd gennyf gwestiynau ynglŷn â'r cynllun?

Mae gan Dawnus Swyddog Cymunedol penodol, sef Matthew Frewer, a fydd yn bwynt cyswllt ar gyfer preswylwyr lleol drwy gydol cyfnod y gwaith adeiladu. A gellir cysylltu ag ef ar **07880 358541** neu drwy anfon e-bost at roath@dawnus.co.uk.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau eraill, cysylltwch â Thîm Llifogydd Y Rhath CNC, drwy e-bost: Roath@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk; neu postiwch: Cynllun Llifogydd Y Rhath, Llawr 1, Cyfoeth Naturiol Cymru, 29 Newport Road, Caerdydd, CF24 0TP.

29. Ble gallaf gyrchu gwybodaeth a diweddariadau?

Ewch i'n gwe-dudalen - www.naturalresources.wales/roath - neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol - Twitter: [@natreswales](https://twitter.com/natreswales), Facebook: [NatResWales](https://www.facebook.com/NatResWales)